# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT  Ffôn: 01492 515999  Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGANOLFAN GYMUNEDOL, BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, IONAWR 10fed, 2022.**

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** - Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS (Cadeirydd), a'r Cynghorwyr Hefin WILLIAMS; D. Gwyn JONES; John EVANS; Tudur W. JONES; Gwyndaf O. ROBERTS; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Ifor G. LLOYD (Cynghorydd Sir).

3. **YMDDIHEURIADAU** - Y Cynghorwr Bryn Jones.

4. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.  Mae'r Cynghorydd  Ifor Lloyd wedi dsweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Datganiad o ddiddordeb gan Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS yng nghais cynllunio 0/49263, gan ei fod yn perthyn i'r sawl oedd yn gwneud y cais.

b. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un arall.

5. **MUNUDAU**

CYTUNWYD i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Tachwedd 1af, 2021.

6. **MATERION YN CODI**

7.21/14(i) Codi fferm wynt fawr ar dir uwchben Nant Ucha a Mynydd Du. Bu I gwmni BUTE dynnu yn ol o'r cyfarfod a oedd i gymeryd lle yn Mis Medi neu Hydref ynghyd a'r Cyngor Sir. Maent wedi dweud y byddant yn hapus i gyfarfod yn Mis Mawrth, er nad oes cofnod o unrhyw drefniant o'r fath ym mhwyllgorau y Cyngor Sir na'r Cynghorau Lleol. Fe fydd y Cynghorwyr Sir yn cyfarfod gyda'i gilydd i benderfynny pa gwestiynnau i ofyn pan gynhelir y cyfarfod.  PENDERFYNWYD i adael i'n Cynghorwr Sir lleol adael i ni wybod pan fydd y cyfarfod wedi ei drefnu.

9.21/6(i) Gosod plac yn ymwneud â champwaith Ms Georgia Wilson. CYTUNODD yr aelodau y dylid prynu plac gyda'r atodiad arysgrif diweddaraf (Atodiad 1). Y Clerc i gysylltu

gyda Dyffryn Memorials gyda'r newid diweddara cyn archebu y plac ar y garreg ‘Honed Granite’.

**7. CYLLID**

Ar gyfer y cyfnod yn gorffen Rhagfyr 20fed, 2021. - NODODD yr aelodau'r sefyllfa ariannol a'r adroddiadau banc, fel a restrir isod:-

Cyfrif cymunedol ……………………£9851.37

Cyfrif busnes ………………….……..£5,551.36

I gymeradwyo’r fantolen ar gyfer yr un cyfnod. CYTUNWYD arni gan bawb.

**8. GOHEBIAETH**

10.21/8(iii) Llythyr gan Darren Millar AS ynghylch dod i gyfarfod o'r Cyngor. CYTUNODD yr aelodau i ofyn i Darren Millar AS ddod i gyfarfod o'r Cyngor ar ol cael y cyfarfod gyda cwmni y fferm wynt – BUTE. Y clerc i ysgrifennu llythyr i Darren Millar yn crybwyll gwahodd yn y dyfodol agos.

**9. TALIADAU A DDERBYNIWYD** - 14.12.21 – CBSC – Praesept - £2666.00.

**10. TALIADAU ALLAN** - CYTUNODD yr aelodau i dalu'r holl eitemau a restrir isod:-

11.21/10(i) HMRC ………………………………………… £ 71.81

11.21/10(ii) Cyflog y Clerc ……………………………. £287.23

12.21/10(iii) Neuadd Bentref Betws yn Rhos ... £ 75.00

12.21/10(iv) Tenovus …………………………………… £100.00

**11. GRANTIAU** –

CYTUNWYD i dalu y cais o £300 a dderbynwyd gan Llesiant Oedolion Llanelian ac iw gynnwys eto ym mhraesept 2022/2023.

**12. CYNLLUNIO** -

11.21/12(i) 0/48997 Adnewyddu cais cynllunio 0/43196 ( Adnewyddu annedd arfaethedig) yn Glan Gors, Llanelian. Mr. S.Brooks a Ms J.Croft. Dywedodd y Clerc na allai gael unrhyw fanylion oddi ar wefan gynllunio'r Cyngor Sir. Fe geisiodd y Cynghorydd Lloyd hefyd gael mynediad i fanylion yn y cyfarfod, ond yn aflwyddiannus. Dywedodd y byddai'n siarad gyda'r Adran Gynllunio i ddweud wrthynt am bryderon yr aeloldau. Fe ddisgwylir am fwy o wybodaeth.

11.21/12 (iii) 0/49087 Adeiladu cwt a deciau bugeiliaid 5.4 x 2.1m.: Tan Y Bryn Tan Y Bryn Bach Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT - Mr David Learmont – Dim Gwrthwynebiad.

12.21/12 (iv) 0/49181 Cymeradwyo amod rhif 4 (Tirlunio Caled a Meddal) ar ganiatâd cynllunio 0/44848 (Adeiladu annedd, mynedfa a gwaith peirianyddol cysylltiedig): Plot 5 The Granary Cottages Betws Yn Rhos Abergele Conwy - Mr Barry McDowell – Dim Gwrthwynebiad er poenio am enw saesneg y lleoliad. Clerc i ymholi am yr enw saesneg.

12.21/12 (v) 0/49263 Estyniad ac addasiadau mewnol arfaethedig: Tyddyn Bach Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG – Hewitt & Hughes – (Ni chymerodd y Cadeirydd ran yn y drafodaeth yma) - Dim Gwrthwynebiad.

**13. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn barn Archwilio gan yr Archwiliwr Cyffredinol.

**14. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd fod y diffyg gan y Cyngor Sir o £18 miliwn yn awr wedi gostwng i £6 miliwn, a'i fod yn siwr y byddai yna ddal doriadau ar wasanaethau'n dilyn, ond y byddant yn ceisio gwarchod toriadau yn yr ysgolion.

Mae yr hanner miliwn yn dal ar gael at wella y ffyrdd lleol.

**15. UNRHYW FATER ARALL**

11.21/15(i) Nodwyd fod dyddiad terfynnol y Clerc blaenorol Mr John MacLennan yn awr wedi pasio a bod trefniadau cyflog, taliadau HMRC, a mandad bank HSBC wedi ei cwbwlhau. Penderfynwyd y byddai ymddangosiad o ddiolch i Mr. John MacLennan yn cael ei cyflawni unwaith y bydd rhwystrau presenol Covid 19 wedi ymlacio.

11.21/15(iv) Y Praesept am 2022/2023 – Cais wedi ei yrru i CBSC

01.22/15 (i) Ymgynghoriad ar yr ymchwiliad i ail gartrefi - manylion wedi ei rannu ar ebost. Os oedd unrhyw un a sylwadau penodol iw gyfranu roedd modd gwneud hynny yn uniongyrchol gyda'r ymchwilwyr.

01.22/15 (ii). Dathliad/Jiwbili Platinwm y Frenhines – 2 Mehefin 2022. Cafodd y pwnc ei drafod a penderfynwyd i blannu coeden i ddathlu yr achlysur. Mae hyn yn un o'r digwyddiadau sydd wedi ei rhestru ar lythyr o Lywodraeth y Deurnas Unedig.

01.22/15 (iii). Mae Cofrestr Etholwyr 2021 – 2022 yn nawr ar gael. Penderfynwyd i'r Clerc lawrlwytho un copi ar gyfer y Cyngor.

01.22/15 (iv). Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021. Bydd cyrsiau ar gael yn y dyfodol agos i alluogi Clercod a Chynghorwyr Cynghorau Cymunedol i fanteisio ar y gallu i ehangu ei gwybodaeth am reolau a gweithrediadau cymdeithasau o'r fath.

01.22/15 (v) Cafwyd gwybodaeth fod cerbyd trwm a mwy nac un cynhwysyd metel wedi ei roi ar ochor y mynydd yn Cil Llidiart heb son am beth fydd ei defnydd. Dywedodd y Cynghorwr Sir Ifor Lloyd fod y mater o dan sylw Adran Gynllunio y Cyngor Sir.
01.22 (vi) Codwyd pryderon gan y Cynghorwyr am gyflwr rhai o'r ffyrdd lleol yn arbennig ffordd Llanelian o hen Golwyn, y bont wrth Ysgubor Newydd, Llanelian, a'r bont wrth Coed Coch. Y clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir i weld beth yw'r sefyllfa gyda cynnal a chadw y lleoliadau yma.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.15y.h.

CADEIRYDD: Irwedd Griffiths DYDDIAD: 7fed Chwefror 2022